COFNODION CHWECHED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES

Cynhaliwyd yn rhithwir trwy gyfrwng Gweminar Zoom ddydd Gwener 8 Ebrill 2022 mewn sawl lleoliad

Yn bresennol:
Swyddogion - Nia Parry (Llywydd), Kathryn Robson (Prif Weithredwr), John Graystone (Cadeirydd), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc) (4).

Aelodau Unigol - Elaine Bannister, Marion Burke, Rachel Burton, Clair Charalambous, Anthony Cope, Caroline Davies, Cath Dawkes, Victory Ezeofor, Salamatu Fada, Christopher Franks, Tamara Garnault, Cath Hicks, Jayne Ireland, Jenni Jones-Annetts, Michelle Kerswell, Dona Lewis, Kristian Losztyn, Stephen Nicholls, Siôn Aled Owen, Tim Palazon, Graham Price, Martyn Reed, Susan Roberts, Jan Tiley, Judith Wilding, Crian Williams (26).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Canghennau - Cathy Clark (Oakdale a'r Coed-duon), Bill Griffiths (Llanelli), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Marilyn Thomas (Caerffili) (4).

Aelod Unigol a Chynrychiolydd Mudiad Cyswllt a Phartner - David Smith (Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru) (1).

Cynrychiolwyr Mudiad Cyswllt a Phartner - Martin King-Sheard (Play Wales / Chwarae Cymru), Rowena Lee (CBS Pen-y-bont ar Ogwr) (2).

Siaradwyr, Cefnogwyr a Staff yn bresennol - Anthony Phillips a Richard Knoyle (Archwilwyr, Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd.); Iola Llwyd a Steffan Wiliam (cyfieithwyr ar y pryd); Sarah K Jones, Florence Walkey, Rhydian Williams (tîm technegol y staff); Sarah Ansell, Jane Hawkshaw, Ann Herbert, Jayne Murphy (staff yn bresennol); Dr. Nilu Ahmed, Rachel Clarke, Yr Athro Diana Laurillard, Angharad Tomos, Cerys Furlong (siaradwyr gwadd) (16).

Ymddiheuriadau:
Leanne Andreadis, Mark Baines, Maggi Dawson, Amanda Doyle, Judith Evans, Christina Gallagher, Jeremy Gass, David Girdler, Wendy Lewis, Matthew Lloyd, David MacManus, Betty Mason, Kalpana Natarajan, Tim Owen, Patrick Robson, Ceri Williams (16).

Eitem	ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2022 A DIGWYDDIAD 'MENYWOD YSBRYDOLEDIG MEWN ADDYSG'
1.	**Cyflwyniad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)** Croesawodd Nia Parry bawb i'r cyfarfod, a gynhaliwyd ar ffurf Gweminar Zoom am yr ail flwyddyn yn olynol. Esboniodd yr opsiynau a oedd ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd, gan fod dau gyfieithydd yn cael eu defnyddio, a sut i ofyn cwestiynau neu godi pwyntiau yn ystod y cyfarfod. Byddai pleidleisio'n digwydd trwy bleidleisio'n fyw ar y sgrin, gydag arwydd o'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno'n syth ar y sgrin. Roedd y ddarpariaeth yn y cyfansoddiad ar gyfer pleidleisio trwy ddirprwy yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni eisoes wedi derbyn 11 pleidlais ddilys ymlaen llaw. Byddai'r rhain yn cael eu bwrw'n briodol a niferoedd terfynol y pleidleisiau'n cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod.
2.	**Cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol a'r newyddion diweddaraf am gyflawniadau yn gysylltiedig â'r cynigion y cytunwyd iddynt yno** Cafodd cofnodion drafft pumed CCB Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales (AOC|ALW), a gynhaliwyd dros y we ar 30 Mawrth 2021, eu cymeradwyo'n gofnod cywir (41 o blaid, gyda 6 yn atal eu pleidlais). O ran y pedwar cynnig y cytunwyd iddynt yno, roedd dogfen yn amlinellu camau gweithredu dilynol wedi'i dosbarthu gyda phapurau'r CCB. Nodwyd y diweddariadau ysgrifenedig ynghylch datblygiadau i fynegi diolch i staff am eu gwaith yn ystod pandemig Covid-19, a'r newid cyfansoddiadol i gynnwys aelodau cangen yn aelodau o'r mudiad cenedlaethol. Siaradodd Kathryn Robson yn ehangach am y ddau gynnig arall y cytunwyd iddynt. O ran cysylltiadau Ewropeaidd, roedd AOC|ALW wedi'i benodi'n un o gyrff cydlynu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, 'Taith', a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mewn partneriaeth â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, byddai'r mudiad yn arwain elfen addysg oedolion y rhai sy'n teithio dramor a'r rhai sy'n dod i Gymru fel rhan o'r cyfnewidfeydd. O ran ceiswyr lloches, roedd AOC|ALW wedi codi'r angen am gymorth ariannol iddynt gyda'r Gweinidog Addysg yn gyson a thrwy gwestiwn yng nghyfarfod llawn y Senedd, gan sefydlu ei gronfa addysg gwerth £10,000 ei hun hefyd i helpu ceiswyr lloches i oresgyn rhai o'r rhwystrau a gawsant rhag dilyn cyrsiau, yn arbennig cymorth â theithio.
3.	**Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2020/21 Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales** Cyfeiriodd Stephen Nicholls (Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau) at y wybodaeth ariannol gryno a ddosbarthwyd gyda phapurau'r CCB. Roedd yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol archwiliedig llawn, a gymeradwywyd gan y Cyngor, ar gael ar wefan y Mudiad. Roedd gwarged bach yng ngweithgareddau addysgol cyfan y flwyddyn unwaith eto wedi'i droi'n ddiffyg ar y fantolen oherwydd y colledion enwol sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd yn ddiffyg llawer llai na diffyg y flwyddyn flaenorol. Roedd y ddarpariaeth addysgol

	ychydig yn brin o'r targed y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn, sef 65%. Mae'r ffigurau hyd yma ym mlwyddyn 2021/22 yn argoeli'n dda yn ariannol ac o ran y ddarpariaeth amrywiol a oedd ar gael ar ôl Covid-19: roedd cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn arbennig yn ffynnu. Roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar ddarpar werthiannau rhai asedau penodol sy'n weddill yn Harlech. Cadarnhaodd Anthony Phillips ar ran yr archwilwyr, Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd., fod eu hadroddiad (tt. 22-24 yn y ddogfen lawn) yn ddiamod (h.y. yn gadarnhaol) unwaith eto. Roedd ffigur y diffyg, sef £471,000, ar y datganiad incwm a gwariant yn cynnwys arian y byddai Llywodraeth Cymru o bosibl yn ei gymryd yn ôl: roedd yn adlewyrchu senario sefyllfa waethaf y gallai canlyniad y flwyddyn ganlynol ei wella. Cydnabu cymorth Tîm Cyllid y Mudiad â'r broses archwilio. Cynigiodd y Llywydd fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 yn cael eu derbyn. Cymeradwywyd hyn, gyda 46 phleidlais o blaid a 2 bleidlais wedi'u hatal.
4.	**Ailbenodi Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd. yn archwilwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22** Ac yntau'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, dywedodd Chris Franks fod y Pwyllgor yn fodlon â pherfformiad Baker Knoyle Chartered Accountants Ltd. fel archwilwyr allanol. Felly, cynigiodd ailbenodi'r archwilwyr ar gyfer archwiliad y flwyddyn bresennol. Cymeradwywyd y cynnig hwn, gyda 57 pleidlais o blaid ac 1 bleidlais wedi'i hatal. Hefyd, soniodd am agweddau eraill ar ddyletswyddau'r Pwyllgor: ailbenodi TIAA yn archwilwyr mewnol y Mudiad yn ddiweddar; adolygu Cofrestr Risg gynhwysfawr yn rheolaidd, yr oedd angen iddi bellach adlewyrchu goblygiadau cynnydd mewn costau byw i'r Mudiad yn ogystal â'i ddysgwyr; ac, ymhen ychydig fisoedd, monitro darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Mudiad, ac asesiad o'i effaith ar yr amgylchedd.
5.	**Adroddiadau gan ein cynrychiolwyr ar bedwar Llys Prifysgol** Rhoddodd yr eitem hon ar yr agenda wybod i aelodau am ddatblygiadau yn deillio o statws ffurfiol y Mudiad yn Llysoedd prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Roedd y ddau adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd yn flaenorol (Aberystwyth a Bangor) o flynyddoedd gwahanol; ac oherwydd y tarfu ar gyfarfodydd y Llys o ganlyniad i'r pandemig, cafwyd diweddariadau gan brifysgolion Caerdydd ac Abertawe, ond ni chafwyd adroddiadau cyfarfodydd. Derbyniodd y CCB y ddogfen fel y'i cyflwynwyd.
6.	**Trosolwg y Prif Weithredwr o waith y flwyddyn, 2021/22** Soniodd Kathryn Robson fod y flwyddyn yn un â llawer i'w ddathlu wrth iddi ganmol ymrwymiad cydweithwyr (tiwtoriaid, staff cymorth a phartneriaid) i addasu

	i dirlun a oedd yn esblygu'n gyson o ganlyniad i Covid-19. Roedd AOC|ALW mewn sefyllfa gref oherwydd ymatebolrwydd o'r fath – roedd ei alluoedd digidol gwell wedi bod yn drawsnewidiol i lawer ac, o ganlyniad iddynt, roedd yn ddarparwr arweiniol mewn sawl maes. O ganlyniad, roedd y Mudiad ar y trywydd iawn i gynyddu nifer ei ddysgwyr eleni. Roedd cydweithio cadarn â changhennau a mudiadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn golygu bod amrywiaeth o gyrsiau hen sefydledig yn parhau ochr yn ochr gydag ehangu cyffrous mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mewn gwaith gyda ffoaduriaid. Roedd hi'n werth nodi datblygiadau i'r cwricwlwm ym meysydd gwaith ieuenctid a gwaith chwarae, cyrsiau undebau llafur a dysgu yn y gweithle. O ran heriau, roedd problem gyda phrinder staff yn parhau, nad oedd yn unigryw i AOC|ALW; roedd cyflogwyr yn gyffredinol yn cael trafferthion recriwtio. Golygai ein hymagwedd strategol ein bod, fel darparwr mwyaf dysgu oedolion yn y gymuned, mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil sy'n mynd trwy'r Senedd yn adlewyrchu statws dysgu oedolion yn y gymuned yn y sector addysg ôl-16 yn deg. Hefyd, roeddem yn chwarae ein rhan wrth hybu Cymru wrth-hiliol, gyda nodau i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol yn ethnig. Roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar gynllun marchnata newydd a darparu gwell cynllun aelodaeth, sy'n ddatblygiad cysylltiedig. Mewn sylwadau a chwestiynau, cafodd gwaith cadarnhaol AOC|ALW ym meysydd gwaith ieuenctid, cymuned a gwaith chwarae ei ganmol; hefyd pwysleisiwyd yr ymrwymiad parhaus i'n mudiad gwirfoddol, gan gynnwys ymdrechion i gynnwys pobl sy'n gysylltiedig â'r Mudiad wrth ymwneud â'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn ffurfiol gan y cyfarfod.
7.	**Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf** Mynegodd John Graystone ei ddiolchgarwch i aelodau'r Cyngor, staff, dysgwyr a gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'r Mudiad am eu hymroddiad. Bu'n myfyrio am rai ymadroddion newydd a gododd o'r pandemig. Yn sicr, nid oedd AOC|ALW yn gorff a oedd yn ffugio'r hyn yr ydoedd ('astroturfing'), ac nid oedd ychwaith yn arddel 'doom scrolling' (gan fod gennym feddylfryd gadarnhaol yn wyneb heriau). Gallai'r Mudiad, fodd bynnag, hawlio ei fod yn 'long-hauler' – yn ymroi i fod ym maes addysg am amser hir, gan adeiladu ar hanes disglair. Roedd AOC|ALW yn gwbl ymwybodol bod Covid-19 wedi effeithio waethaf ar bobl dlawd mewn cymdeithas a'i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i anghenion pobl o'r fath ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac i ofynion addysgol mewnlifiadau diweddar o bobl o Afghanistan ac Wcráin, ymhlith eraill. Roedd hi'n bwysig sicrhau nad partner iau oeddem yn y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a fyddai'n deillio o'r Bil o'r un enw. Roedd Kathryn Robson yn aelod presennol o grwpiau perthnasol, priodol, felly roeddem mewn lle delfrydol i gynnig ein hunain fel y corff naturiol i ymgymryd â chyfrifoldebau a fyddai ar gael cyn hir yn y maes.

	Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod.
8.	**Cynnig i'w Drafod** ***<u>Cynnig 1: Diffibrilwyr</u>*** *Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn o'r farn y dylai AOC/ALW osod diffibriliwr ym mhob eiddo y mae'n berchen arno neu'n ei brydlesu fel swyddfa (os nad oes un eisoes yn bresennol yn yr eiddo), i'w ddefnyddio yn ystod camau cynnar ataliad y galon.* *Byddai hyn o fudd i bob aelod staff, dysgwr ac ymwelydd. Os caiff diffibriliwr ei ddefnyddio o fewn munud i ataliad y galon, dangoswyd bod y cyfraddau goroesi'n gallu bod mor uchel â 90%; os caiff ei ddefnyddio o fewn y 3 i 5 munud cyntaf, mae'r tebygolrwydd o oroesi tua 74%. Mae hyn yn dangos bod cael diffibiriliwr wrth law wir yn gwneud gwahaniaeth.* Cynigiwyd: Marilyn Thomas Eiliwyd: Cangen Caerffili *<u>Diwygiad A</u>* *Bydd AOC/ALW hefyd yn sicrhau bod yr aelodau staff hynny sydd eisoes â chymhwyster Cymorth Cyntaf yn cael cyrsiau ymgyfarwyddo/hyfforddi ar gyfer y diffibrilwyr.* Cynigiwyd: Cath Hicks Eiliwyd: Mark Baines Cyflwynwyd y cynnig gan Marilyn Thomas (tiwtor a chadeirydd cangen Caerffili) a oedd o'r farn y byddai'r cynnig o fudd i bawb sy'n mynychu swyddfeydd y Mudiad. Adroddodd hanes profiad personol yn gysylltiedig â'i gŵr, a ddangosodd effeithlonrwydd presenoldeb diffibriliwr; dywedodd John Graystone hefyd am farwolaeth sydyn ei frawd yr haf cynt, mewn lleoliad lle nad oedd diffibriliwr ar gael. Roedd y ddau o blaid y cynnig fel y'i cryfhawyd gan Ddiwygiad A. Esboniodd Cath Hicks natur y cymal ychwanegol hwnnw yn fyr. **Cytunwyd i'r cynnig, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad A, fel a ganlyn:** **O blaid: 54** **Yn erbyn: 0** **Atal pleidlais: 1**
9.	**Menywod Ysbrydoledig mewn Addysg – cyflwyniadau a thrafodaeth banel** Dechreuodd ail ran y cyfarfod gyda segment wedi'i recordio ymlaen llaw gan Dr. Nilu Ahmed (Prifysgol Bryste) yn arddel pwysigrwydd addysg i les yn gysylltiedig â menywod, er bod addysg yn cael ei hystyried yn ddifyrrwch 'peryglus' mewn rhai rhannau o'r byd. Adroddodd ei hanes personol am y manteision a gafodd i'w hiechyd ei hun o fynd i ddosbarth gwnïo adeg salwch angheuol ei thad. Fel

	seicolegydd, roedd hi'n ymwybodol iawn bod yr awydd i ddysgu trwy gydol bywyd yn hollbwysig i les ac yn agwedd allweddol ar ymrymuso menywod yn benodol. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd Nia Parry, fel addysgwr oedolion mewn dosbarthiadau Cymraeg, yn ei gefnogi. Yna, siaradodd Rachel Clarke, dirprwy bennaeth ysgol yn Llundain, am waith a chyflawniadau ei mam-gu, Betty Campbell. Â'i threftadaeth Gymreig bob amser yn bwysig iddi, roedd hi wedi gwireddu ei breuddwyd o fod yn athrawes fel oedolyn, er y dywedwyd wrthi pan oedd hi'n ifanc na fyddai hynny'n bosibl oherwydd ei lliw. Roedd wedi goresgyn rhwystrau niferus yn ystod ei hoes ac roedd o flaen ei hamser yn dal gwerthoedd penodol yn ganolog i'w chredoau ymhell cyn iddynt ddod yn fentrau swyddogol Llywodraeth Cymru – megis gwrth-hiliaeth a chynnwys hanes pobl dduon yn y cwricwlwm ysgolion. A hithau'n llawn cadernid, roedd wedi dangos yn rhagorol sut yr oedd gan arweinwyr ddyletswydd gofal tuag at bobl eraill a dyletswydd i'w meithrin, trwy drin pawb fel pe bai ganddynt yr un gwerth. Credai mai cyflawniad pwysig i AOC|ALW fyddai sicrhau amrywiaeth o gwmpas y byrddau lle gwneir penderfyniadau yn y Mudiad, nid yn unig o safbwynt hil ond trwy gynnwys lleisiau pawb sydd ar y cyrion. Siaradodd yr Athro Diana Laurillard (University College London) am bwysigrwydd technoleg ddigidol mewn byd ôl-bandemig, gyda chymorth cyflwyniad sleidiau. Athrawon ac esblygiad technegol eu rolau oedd yn gyfrifol am welliannau yn ansawdd y defnydd o'r maes hwn, mewn gwirionedd, a phwysleisiodd ei gwaith hi o gynorthwyo ag arloesiadau addysgegol gan athrawon ar bob lefel. Dangosodd hi'r rhaglen 'Learning Designer' – dull ar-lein cydweithredol, yr oedd adolygiad gan gymheiriaid wedi'i wella. Siaradodd am y cysylltiadau rhyngwladol yn ei gwaith, yr ysbrydoliaeth a roddodd Jennie Lee (gwraig Aneurin Bevan) i'w gyrfa, a phwysigrwydd sylfaenol 'ymddiried yn yr athrawon' wrth rannu eu datblygiadau cyffrous yn y maes hwn. Mewn darn arall a recordiwyd ymlaen llaw, amlinellodd Angharad Tomos y cefndir i rolau'r pâr priod, Silyn a Mary Roberts, sef cyd-sylfaenwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Er bod mymryn o ramant yn perthyn iddo ef, a adlewyrchir yn ei farddoniaeth, roedd ei wraig, Mary, yn rheolwr a threfnydd arbenigol naturiol. Hi oedd yr unig fenyw ar y llwyfan pan agorwyd Coleg Harlech yn 1927, a dangosodd ei chysylltiadau rhyngwladol (gyda Denmarc, yn benodol) a'i 15 mlynedd fel pennaeth Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru ar ôl ei farwolaeth gymaint o arloeswraig yr oedd hi. Arweiniodd y mudiad trwy heriau dwys y 1930au a'r 1940au, ac roedd yn torri tir newydd o ran ymgymryd â rolau uwch gan fenywod. Dangosodd archif y blynyddoedd hynny, a fodolai ym Mangor ac a fydd yn cael eu trosglwyddo cyn hir i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sut y gosododd hi ei stamp ar bopeth a phwysigrwydd ei gwaddol. Gwnaed y cyfraniad olaf gan Cerys Furlong, prif weithredwr y mudiad cydraddoldeb rhywedd, Chwarae Teg, a soniodd am gyflawniadau menywod ym myd addysg. Dangosodd adroddiad 'cyflwr y genedl' diweddaraf y corff ar sefyllfa menywod yng Nghymru bod y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau yn 12% ar

	gyfartaledd (er ei fod mor uchel â 25% mewn rhai sectorau). Roedd hyn wedi'i seilio ar fwy o weithio rhan-amser a mwy o debygolrwydd bod menywod yn anweithgar yn economaidd gan mai nhw yn bennaf sy'n ymgymryd â rolau gofal plant. Cafwyd dadansoddiad o fenywod yn y byd gwleidyddol, fel arweinwyr a rheolwyr yn eu gweithle, eu diogelwch mewn mannau cyhoeddus a data ar gam-drin domestig a thlodi: roedd 55% o hawlwyr y Credyd Cynhwysol yn fenywod. Er ei bod hi'n wir mai menywod yw mwyafrif yr oedolion sy'n dysgu a'r staff addysgu yn y sector, gwrywaidd yn bennaf oedd arweinwyr yn y maes eto fyth. Mewn sesiwn banel i gloi ac mewn ymateb i gwestiynau, roedd Diana Laurillard o'r farn y byddai rhoi'r grym i athrawon/tiwtoriaid wrthsefyll rhai o'r tueddiadau cymdeithasol negyddol hyn yn beth cadarnhaol i AOC|ALW ei wneud. Er na fyddai angen bod yn 'heddlu rhywedd', byddai ymrymuso tiwtoriaid benywaidd yn fwy ym maes addysg oedolion yn gamp galonogol. Athrawon/tiwtoriaid a oedd yn gwybod yn reddfol o'u profiad beth oedd ei angen wrth ailadeiladu strwythurau addysgol ar ôl Covid-19. Eto, mae cyffredinedd rheolwyr gwrywaidd – yn enwedig mewn prifysgolion – yn golygu mai nhw oedd yn gwneud y penderfyniadau allweddol ar hyn o bryd ynghylch ailadeiladu. Y neges gyffredinol oedd y byddai rôl AOC|ALW fel mudiad eang ym maes dysgu gydol oes yng Nghymru yn ffynnu orau nid trwy eithrio dynion mewn unrhyw fodd, ond trwy undod ymhlith y rhywiau yn ei waith.
10.	**Diolchiadau a Sylwadau i Gloi** Diolchodd Nia Parry i bawb am eu cyfraniad at y bore - yn siaradwyr, yn gyflwynwyr ac o safbwynt y trefniadau technegol. Edrychai ymlaen at y cyfle i gyfarfod â phobl yn bersonol cyn bod hir yn rhinwedd ei rôl fel Llywydd y Mudiad.